Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Coedpoeth

**Ysgol Bryn Tabor**
**Coedpoeth**
**Wrecsam**
**LL11 3RU**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2013**

**gan**

**Nicholas Jones**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:


Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk


Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk


**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrau Ei Mawrhydi 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 20/02/2013**

## Ynglŷn â'r cylch

Mae Cylch Meithrin Coedpoeth yn gylch cyfrwng Cymraeg sydd wedi'i leoli yn Ysgol Bryn Tabor, Coedpoeth, Wrecsam. Daw'r holl blant sy'n mynychu'r cylch o'r pentref a'r ardal gyfagos. Cydnabyddir nad yw'r ardal yn freintiedig nac ychwaith dan anfantais gymdeithasol neu economaidd.

Mae'r cylch wedi ei leoli mewn ystafell yn yr ysgol ers 2006 a chanddo ddefnydd cyfan gwbl o'r ystafell benodol a'i ardal allanol.

Dywed y cylch daw llawer o blant o gartrefi lle siaredir Saesneg ar yr aelwyd. Mae'r plant yn cynrychioli'r ystod lawn o alluoedd ac mae'r cylch yn derbyn plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Nid oes un plentyn yn y grŵp cyfredol wedi'i nodi ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r cylch wedi derbyn cefnogaeth gan asiantaethau allanol i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol yn y gorffennol. Nid oes un plentyn o gefndir ethnig lleiafrifol ar hyn o bryd a daw neb o gartrefi sydd o dan anfantais gymdeithasol.

Mae'r cylch wedi'i gofrestru gyda'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru am uchafswm o 20 o blant ac yn derbyn plant o ddwy flwydd a hanner oed. Ar hyn o bryd, mae 19 o blant yn mynychu'r cylch ar ryw adeg o'r wythnos. Mae 11 ohonynt yn dair blwydd oed. Mae'r Mudiad Meithrin a'r awdurdod lleol yn cefnogi'r cylch.

Mae'r arweinydd, yn ei swydd ers 2009. Mae un aelod o staff yn cynorthwyo'r arweinydd yn llawn amser a dwy yn rhan amser. Mae tri o'r staff â chymwysterau addas ac mae un o dan hyfforddiant ar hyn o bryd.

Ceir llyfryn sy'n llawn o wybodaeth ar gyfer rhieni a gofalwyr, sy'n eu darparu â manylion perthnasol am y cylch. Daw rhieni a gofalwyr â'u plant i mewn i'r cylch sy'n gyfle i gael cyfarfod â'r staff os oes angen. Mae'r cylch ar agor rhwng 8.50yb ac 11.00yb o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Mae pwyllgor rheoli yn goruchwylio gwaith y cylch.

Arolygwyd y cylch diwethaf gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn 2012. Nid yw'r cylch wedi ei arolygu gan Estyn o'r blaen.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y cylch | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r cylch | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y cylch yn dda oherwydd:

- mae bron pob un plentyn yn dangos cynnydd ac yn cyflawni'n dda ymhob maes dysgu;
- mae bron pob un plentyn yn mwynhau dysgu ac mae ganddynt agweddau positif at ddysgu;
- mae bron pob un plentyn yn ymddwyn yn gyfrifol;
- mae'r profiadau dysgu yn cael eu cynllunio'n dda;
- mae'r holl blant yn cael eu cefnogi'n dda ac yn elwa o gwricwlwm sy'n eang, cytbwys a diddorol;
- mae'r addysgu'n effeithiol ac yn canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen;
- mae adnoddau da ar gael;
- mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda;
- mae perthynas dda iawn rhwng oedolion a phlant;
- mae perthynas a chyd-weithio da gyda'r ysgol sy'n rhannu'r safle; ac
- mae'r staff yn cyd-weithio'n effeithiol, sy'n cyfrannu'n bwrpasol i lwyddiant y cylch.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r cylch yn dda oherwydd:

- mae'r arweinydd a'r staff yn darparu cyfeiriad clir i waith y cylch;
- dengys newidiadau a datblygiadau dros amser fod gan y cylch gofnod da o wella er lles y plant;
- mae'r systemau hunan arfarnu'n effeithiol ac yn cyfatebu'n briodol gyda thargedau clir y cynllun datblygu pwrpasol;
- mae gan yr holl staff agwedd gadarnhaol a gweithredol tuag at ddatblygiad a hyfforddiant;
- mae llinellau cymorth da yn cael eu defnyddio'n rheolaidd a'n synhwyrol;
- mae'r pwyllgor rheoli yn weithredol a chefnogol; ac
- mae'r amgylchedd dysgu'n ysgogol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella mae angen i’r cylch i:

A1 ddatblygu medrau annibynnol y plant;

A2 herio plant unigol yn unol â’u galluoedd; a

A3 darparu gwell cyfleoedd i’r plant i ymweld a dysgu am eu cymuned.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y cylch yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae safonau dechreuol bron pob un plentyn yn dda. Mae bron pob un plentyn yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd da ymhob maes dysgu wrth ystyried eu mannau cychwyn. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng safonau grwpiau gwahanol o blant yn y cylch.

Mae bron pob un plentyn yn gwneud cynnydd positif yn eu datblygiad o'u medrau llythrennedd yn yr iaith Gymraeg. Ychydig iawn o blant sy'n anfodlon i ddefnyddio'r iaith ac mae bron pob un plentyn â dealltwriaeth effeithiol o'r iaith. Mae gan bron pob un o'r plant fedrau gwrando da. Adlewyrchir hyn wrth iddynt eistedd a gwrando'n astud ar stori, wrth iddynt ystyried eu byrbrydau a thrafod y tywydd. Mae bron pob un plentyn yn mwynhau clywed stori ac mae llawer o blant yn awyddus i gyfrannu i'r hyn a ddarllenir iddynt.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ateb cwestiynau yn frwdfrydig, sy'n dangos yn glir eu dealltwriaeth ddatblygol o'r iaith. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymateb yn synhwyrol i drafodaethau grŵp ac yn cyfrif yn hyderus gyda'i gilydd ac oedolion. Ychydig iawn o blant sy'n swil wrth ymateb. Nodwedd dda arall o'u gallu cynyddol yw'r ffaith iddynt ymateb gydag ychydig iawn o anogaeth i liwiau a rhifau. Gwelir enghreifftiau da o hyn wrth i'r plant drafod siapiau yn yr ardal allanol a dillad arth wrth iddynt ddefnyddio'r cyfrifiadur.

Mae'r mwyafrif o blant yn dewis edrych ar lyfrau yn annibynnol. Maent yn dal llyfrau yn briodol ac yn astudio'r lluniau â diddordeb. Maent yn adnabod prif gymeriadau mewn stori ac yn trafod cynnwys y stori yn ddeallus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau datblygu eu medrau ysgrifennu. Maent yn deall pwrpas ysgrifennu drwy dasgau ymarferol wrth iddynt beintio a chreu patrymau â chreonau. Mae bron pob un plentyn yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda drwy ddefnydd ymarferol o rif, drwy ddefnyddio geirfa fathemategol fel 'llai na' a 'fwy na', 'i fyny' ac 'i lawr', 'hir' a 'byr' a thrwy ddefnyddio siapiau. Mae bron pob un plentyn yn medru grwpio gwrthrychau o wahanol fathau yn gywir, yn enwedig yn ôl lliw.

Mae bron pob un plentyn yn dangos diddordeb llawn ym mhob gweithgaredd ac yn canolbwyntio a dyfalbarhau am gyfnodau sylweddol o amser. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwneud penderfyniadau a gweithio'n annibynnol yn gyson effeithiol ac maent yn or-ddibynnol ar oedolion am arweiniad. Mae llawer o blant yn defnyddio offer electronig yn effeithiol. Maent yn defnyddio cyfrifiadur yn hyderus trwy reoli'r cyfarpar priodol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu'n effeithiol stôr o ganeuon a hwiangerddi Cymreig.

**Lles: Da**

Mae gan bron pob un plentyn dealltwriaeth dda, yn unol â'u hoedran, o sut gallant gadw'n iach. Gwyddant, er enghraifft, pryd mae angen iddynt olchi eu dwylo gan

wneud hyn heb fawr o ymyrraeth. Mae gan bron pob un plentyn dealltwriaeth dda bod deiet iach yn cynnwys ffrwythau a llysiau.

Mae agwedd bron pob un plentyn at eu dysgu yn dda. Maent yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn y gweithgareddau a chynllunnir ar eu cyfer tu fewn y dosbarth ac yn yr ardal allanol. Mae bron pob un plentyn yn canolbwyntio'n dda am gyfnodau arwyddocaol o amser. Gwelir hyn wrth iddynt wrando'n astud ar stori a dyfalbarhau gyda gweithgareddau allanol. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o blant yn gwneud penderfyniadau yn gwbl annibynnol ac maent yn aros am arweiniad staff yn ystod tasgau.

Mae bron pob un plentyn yn uniaethu â'i gilydd, oedolion ac ymwelwyr yn dda iawn. Maen nhw'n gwrtais, yn ystyriol ac yn barod i rannu adnoddau. Maent yn cymryd eu tro yn dda wrth iddynt wisgo'u cotiau i adael yr adeilad ac wrth linellu i olchi eu dwylo. Mae bron pob un plentyn yn cymryd rhan lawn ym mywyd a gweithgareddau'r cylch trwy gynnig syniadau. Cânt gyfleoedd gwerthfawr i awgrymu eu syniadau eu hun ac mae'r rhain, lle'n bosibl, yn cael eu cynnwys yn nhasgau a gweithgareddau'r plant i ysgogi'r plant ymhellach.

Mae bron pob un plentyn yn hapus ac maent yn teimlo eu bod yn derbyn gofal da sy'n rhydd o unrhyw ffurf o aflonyddwch.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Caiff y cwricwlwm ei gynllunio'n dda i ddiwallu athroniaeth cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac i gyflawni'r deilliannau a nodir yn nysgu'r plant. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n effeithiol ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol y plant ac yn cynnwys cyfleoedd diddorol ar gyfer datblygu'r medrau ar draws y cwricwlwm, heblaw am fedrau annibynnol y plant. Gosodir amser ar ddechrau pob wythnos i'r staff gyfarfod i gynllunio'r cwricwlwm. Mae hyn yn darparu'r plant â gweithgareddau defnyddiol a phwrpasol. Mae'r cwricwlwm yn hyblyg, yn briodol ac yn gysylltiedig â diddordebau'r plant. Fodd bynnag, nid oes cyfleoedd priodol wedi eu cynnwys yng ngwaith dyddiol y cylch i ddatblygu'r plant fel dysgwyr annibynnol.

Mae gweithgareddau a thasgau penodol wedi'u cynllunio'n dda ac mae'r plant â'r rhyddid i ddewis eu tasgau a'u gweithgareddau eu hun. Fodd bynnag, mae ymyrraeth yr oedolion yn gwneud y rhan fwyaf o blant yn or-ddibynnol ar arweiniad oedolyn. Darperir gweithgareddau da i'r plant i ddatblygu eu medrau sylfaenol ac allweddol o lythrennedd, rhifedd, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd, datblygiad corfforol a chreadigaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r oedolion yn cyfathrebu'n effeithiol â'r plant yn y Gymraeg.

Mae'r cwricwlwm diddorol yn datblygu ac yn ymestyn profiadau'r plant yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys ymwelwyr o'r gymuned fel y nyrs, yr heddlu, swyddogion diogelwch y ffyrdd, y deintydd a'r gwasanaeth ambiwlans. Fodd bynnag, nid yw'r cylch yn ymweld â'r gymuned yn gyson. Felly, er bod yr ymwelwyr i'r cylch yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o bobl eu cymuned, nid ydy'r plant yn

cael cyfleoedd i weld eu cymuned digon a'r ymwelwyr yma'n gweithredu'n actif yn y byd o'u cwmpas.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth y plant yn dda. Mae'r staff yn gyson gyfeirio'r plant tuag at ddefnyddio'r cyfarpar technolegol fel y cyfrifiadur. Mae gan blant llawer o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau meddwl drwy weithgareddau fel arbrofi gyda dŵr, creu rhifau a siapiau â thoes a thrafod y tywydd yn yr ardal allanol.

Rhoddir pwyslais addas ar draddodiadau a dathliadau Cymru, fel, wrth ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a Santes Dwynwen. Darperir cyfleoedd da hefyd i'r plant i ddysgu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill, fel, drwy astudio'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae gweithgareddau tebyg yn helpu'r plant i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r byd ehangach. Mae'r gweithgareddau yn datblygu'n effeithiol eu hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd eang, sy'n briodol i'w hoedran.

Mae cyfleoedd da i'r holl blant i dyfu blodau a llysiau yng ngardd y cylch. Mae cyfleoedd da ar gael i bob plentyn i ail-gylchu poteli plastig. Mae hyn yn dechrau eu dealltwriaeth am dyfiant planhigion a chynaladwyedd yn effeithiol.

**Addysgu: Da**

Mae gan y staff wybodaeth ymarferol dda o ddatblygiad plant a dealltwriaeth glir o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae perthynas positif iawn rhwng yr holl staff a'r plant. Mae rôl weithredol gan y staff wrth gynllunio'r cwricwlwm a gwneir y defnydd gorau o'u harbenigedd. Fodd bynnag, nid yw pob aelod o staff yn herio'r plant yn unol â'u galluoedd ar bob achlysur, yn enwedig wrth iddynt ymateb yn y Gymraeg i gwestiynu'r oedolyn.

Mae'r staff yn cyd-weithio'n effeithiol a rhannu gwybodaeth am y plant yn rheolaidd. Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan blant a'u cyfeirio gan oedolion tu mewn ac yn yr awyr agored. Mae'r holl blant yn cael rhyddid i ddewis rhwng gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion neu weithio'n annibynnol. Fodd bynnag, ar adegau, mae'r staff yn ymyrryd yn ormodol ac nid ydynt yn caniatáu i'r plant i ddatblygu ei medrau annibynnol yn llwyddiannus.

Mae'r staff yn modelu iaith yn effeithiol i lefelau datblygiad y plant i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu'r plant. Mae'r staff yn annog y plant i werthuso wrth iddynt drafod stori a chwarae rôl. Mae'r staff yn darparu amgylchedd diddorol sy'n sicrhau'n llwyddiannus fod pob plentyn yn cymryd rhan ac yn mwynhau.

Mae'r gweithdrefnau asesu a chofnodi cyflawniadau'r plant yn cael eu cwblhau'n effeithiol ar y cyfan. Mae asesiadau yn eu lle ac maent yn cael eu cwblhau'n effeithlon. Mae'r asesiadau dyddiol yn arwain yn uniongyrchol at dargedau plant unigol. Mae rhieni a gofalwyr yn cael eu hysbysu'n dda am gyflawniadau eu plant ac mae'r wybodaeth ar gael iddynt ar unrhyw amser.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae darpariaeth y cylch ar gyfer sicrhau iechyd a lles y plant yn dda. Mae darpariaeth dda gan y cylch ar gyfer sicrhau datblygiad ysbrydol, moesol,

cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn cael eu meithrin drwy'r weithgareddau dyddiol ac yn cael eu derbyn yn ddiau. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i fyfyrio, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo. Mae hyn yn amlwg wrth iddynt rhannu cyfarpar yn yr ardal chwarae rôl.

Mae cyfleoedd effeithiol yn cael i'w darparu i dderbyn cyfrifoldebau penodol, fel taenu menyn a pharatoi diod ar gyfer eraill. Mae'r system 'helpwr y bore' yn canolbwyntio ar hunan barch unigolion yn effeithiol. Mae'r cylch yn uned drefnus, lle anogir y plant i barchu ei gilydd ac maen nhw, yn eu tro, yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan y staff.

Mae trefniadau'r cylch ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r cylch yn ddiogel, lle mae'r drysau ar gau a dim ond aelod o staff sy'n eu hagor, felly, nid oes neb yn medru dod i mewn na'r un plentyn yn medru gadael heb gwmni. Mae'r ystafell ddosbarth a'i ardal allanol tu mewn i ffiniau'r ysgol ac yn ddiogel. Mae gofal da yn cael ei gymryd wrth i'r plant gael eu casglu er mwyn sicrhau eu bod o dan ofal eu rhieni neu ofalwr adnabyddus.

Mae adolygiadau rheolaidd o gynnydd plant yn sicrhau fod unigolion sy'n cael eu hamau o fod ag angen cymorth ychwanegol, naill ai'n academaidd neu'n gorfforol, yn cael eu nodi ac mae staff yn trafod rhain gyda'r asiantaethau priodol. Yr arweinydd yw'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol. Mae hi'n gyfarwydd â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant ag anghenion arbennig.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r cylch, drwy'r gweithgareddau dyddiol a'r agwedd a fabwysiedir gan y staff yn hyrwyddo ethos positif. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei adnabod. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm diddorol, sy'n cael ei gefnogi gan ardal allanol ddefnyddiol. Mae'r cylch yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol sy'n dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol.

Mae gan staff y cylch gymwysterau addas a phrofiad da ac mae cymhareb oedolyn i blentyn ffafriol iawn. Defnyddir arbenigedd staff yn dda wrth gynllunio â'i gilydd ac wrth oruchwylio gweithgareddau y tu mewn a thu allan. Mae'r cylch yn defnyddio'i adnoddau yn dda i ddiwallu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant, sy'n hyrwyddo synnwyr y plant o gyfrifoldeb yn dda. Mae'r adnoddau wedi eu rhannu'n dda rhwng y gweithgareddau parhaus, gweithgareddau i gyfoethogi a'r tasgau ffocws.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llawn ac yn cyd-weithio'n dda fel tîm gan rannu gwerthoedd, amcanion a nodau. Mae'r arweinydd yn cynnwys y staff yn y cynllunio ac maent yn derbyn y cyngor priodol o asiantaethau allanol fel y Mudiad Meithrin a'r awdurdod lleol. Mae'r arfer yma yn sicrhau'r defnydd gorau o'u

harbenigedd. Mae'r arweinydd yn cyfrannu'n weithredol drwy roi cyfarwyddiadau clir ac wrth dderbyn cyngor pan bo'r angen. Mae'r ymrwymiad yma'n arwain at synnwyr o bwrpas effeithiol i waith y cylch.

Mae'r cynllun datblygu'n nodi'n briodol beth sydd angen ei wneud er mwyn i'r cylch i wella. Mae'r cynllunio strategol yn cael effaith gadarnhaol trwy greu gwelliannau ac mae'r targedau yn cyfatebu'n briodol gyda'r sylwadau yn yr adroddiad hunan werthuso. Mae'r arweinyddiaeth a'r staff yn canolbwyntio'n dda ar anghenion plant ac mae'r cylch yn cyflawni hyn yn llwyddiannus ac ymarferol. Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant perthnasol a phriodol, sy'n effeithio'n dda ar ansawdd y ddarpariaeth.

Mae'r pwyllgor rheoli yn arwain yn effeithiol ac yn rhoi ystyriaeth dda i ddeddfwriaeth. Mae ei systemau rheoli yn cwrdd â'r gofynion yn llawn. Mae'r cylch wedi rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Yn ogystal, gwneir defnydd da o gyfleoedd i weithio gyda'r ysgol, y Mudiad Meithrin a'r awdurdod lleol er mwyn sicrhau cysylltiadau effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r cylch yn hunan arfarnu'n dda ac yn sicrhau cyfatebiaeth effeithiol rhwng yr hunan arfarniad a thargedau'r cynllun datblygu. Maent yn nodi meysydd i wella ac yn eu gweithredu yn erbyn llinynnau amser a chyfrifoldebau pendant er lles y plant. Maent yn cynnwys datblygu ymhellach y cysylltiadau â'r ysgol, gwella safonau'r Gymraeg yn gyffredinol, datblygu medrau annibynnol y plant a pharhau i ddatblygu'n broffesiynol trwy gyrsiau ac hyfforddiant pwrpasol.

Mae'r ardaloedd i wella yn cael eu targedu yn effeithiol a chynnil yn erbyn meini prawf llwyddiant yng nghynlluniau datblygu'r cylch. Mae'r cynlluniau datblygu yn cael blaenoriaeth effeithiol yn natblygiad y cylch gan y staff, yr awdurdod lleol, y Mudiad Meithrin a'r pwyllgor rheoli. Mae'r staff yn gwneud defnydd da o gyfleoedd hyfforddi a phrofiadau dysgu proffesiynol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Ceir cysylltiadau effeithiol gyda rhieni a gofalwyr. Maent yn cael eu hysbysu'n dda o gyflawniad a chynnydd eu plant. Mae hyn yn eu helpu i gefnogi dysgu eu plant. Mae'r rhieni, yn yr atebion i'r holiaduron ac yn ystod trafodaethau, yn mynegi eu boddhad â'r cylch ac yn gwerthfawrogi y safonau o ofal ac ansawdd yr addysg sydd ar gael. Maent yn gwerthfawrogi'r polisi drws agored a'r cyfleoedd dyddiol i gwrdd â'r staff.

Erbyn i'r plant adael y cylch, mae'r rhieni yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn yr ysgol sy'n rhannu'r adeilad a'r safle. Mae'r cysylltiadau rhwng y cylch a'r ysgol yn dda. Mae'r cysylltiadau a'r gefnogaeth a ddarperir gan y Mudiad Meithrin a'r awdurdod lleol yn dda ac mae adroddiadau rheolaidd a manwl ar gael o ymweliadau a thrafodaethau buddiol. Mae'r cyngor a'r awgrymiadau yn gymorth i symud y cylch ymlaen ac yn cyfrannu at y ddarpariaeth dda.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae staff y cylch yn addysgu'n dda ac yn cyd-weithio'n effeithlon. Mae'r pwyllgor rheoli yn gefnogol ac yn clustnodi arian ar gyfer yr anghenion pwysig fel adnoddau dynol da a chyfarpar defnyddiol. Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu.

Mae'r cylch yn defnyddio'r adeilad a'r ardal allanol yn effeithiol a darparu profiadau diddorol, sy'n cael eu cynllunio'n dda. Mae'r arweinydd yn arwain yn effeithiol a defnyddio asiantaethau cynorthwyol a'r pwyllgor rheoli yn bwrpasol er lles y plant. Wrth ystyried cyflawniadau a chynnydd y plant o'u mannau cychwyn, y ddarpariaeth ar gyfer y plant ac ansawdd cyffredinol yr arweinyddiaeth; mae'r cylch yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i rieni

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron rhieni oherwydd y nifer fach o ymatebion a dderbyniwyd.

### Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Mae bron pob un plentyn yn hapus yn y cylch. Mae brwdfrydedd bron pob un plentyn yn amlwg wrth iddynt gyrraedd a chwrdd â’u cyfoedion. Mae bron pob un ohonynt yn hunan hyderus wrth wybod eu bod yn cael eu cefnogi’n dda a bod ganddynt dasgau diddorol sydd wedi eu darparu ar eu cyfer.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |